



## Ysgol Pentreuchaf

### 42. Polisi Cyngor Ysgol

#### Nod

Rydym fel ysgol yn cydnabod y pwysigrwydd o wrando ar bob plentyn. Mae Cyngor Ysgol yn rhoi'r cyfle i'r plant fynegi barn ar agweddau o fywyd yr ysgol.

**Aelod Staff Dynodedig Cyngor Ysgol (Cyfranogiad) = Heulwen Hughes**

#### Amcanion

1. Sicrhau bod y disgyblion yn helpu i wneud yr ysgol yn gymuned hapus.
2. Sicrhau bod y disgyblion yn deall a pharchu safbwyntiau gwahanol a dysgu sut i gyfaddawdu.
3. Datblygu sgiliau cyfathrebu y disgyblion a'r staff e.e. gwrandao ar eraill a chydabod eu hunain fel unigolion o werth gyda'r hawl i fynegi barn a chyfrannu mewn trafodaethau.

#### Canllawiau

1. Ar ddechrau pob blwyddyn, bydd pob blwyddyn ysgol o blant yn ethol dau gynrychiolydd (B3 i fyny), trwy bleidlais gudd. Bydd darpar aelodau yn cynnig eu hunain i weddill plant y flwyddyn gan egluro beth sydd ganddynt i'w gynnig i'r swydd.
2. Byddwn yn annog y disgyblion i ddewis un bachgen ac un merch. Bydd 'Swyddogion Dosbarth' hefyd yn cael eu pennu i fod yn gymorth i aelodau'r Cyngor gyda cyfarfodydd y Cyngor Dosbarth.
3. Atgoffa'r plant eu bod i bleidleisio am y person gorau i'r swydd beth bynnag ei ryw, allu, hil, anabledd, cefndir a.y.y.b.
4. Y Cyngor Ysgol sydd i benodi Cadeirydd o fysg yr aelodau.
5. Aelodau'r Cyngor Ysgol i benodi Ysgrifennydd – nid yw'n angenrheidiol i'r Ysgrifennydd fod yn aelod o'r Cyngor, ond os felly, ni fydd yn cymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau.
6. Cynnal cyfarfodydd Cyngor Dosbarth / Cyngor Ysgol yn rheolaidd.
7. Bydd penderfyniadau a dymuniadau'r Cyngor Ysgol yn cael eu cyflwyno i'r pennaeth (drwy'r aelod dynodedig o blith y staff sydd a chyfrifoldeb am y Cyngor Ysgol ). Bydd yr aelod dynodedig a'r pennaeth yn penderfynu a ydynt yn ymarferol / dymunol / fforddiadwy a.y.y.b.
8. Bydd yr aelod dynodedig ar y cyd gyda'r pennaeth yn rhoi eglurhâd i'r Cyngor Ysgol os bydd cais yn cael ei wrthod gan ymhelaethu ar y rhesymau pam nad yw'n bosibl.
9. Rhoi cyfle i aelodau'r Cyngor Ysgol i gyfarfod â Llywodraethwyr yr ysgol i gyflwyno eu gweithgareddau blynyddol a chynnal trafodaeth o leiaf unwaith y flwyddyn.
10. Sicrhau fod cynrychiolwyr o'r Cyngor Ysgol yn rhan o drafodaethau gyda swyddogion y sir pan fydd penderfyniadau yn berthnasol iddynt hwy.

#### Casgliad

Drwy sefyllfa'r Cyngor Ysgol daw'r disgyblion i ddysgu sut i gyd-weithio mewn tîm, i ddeall safbwyntiau eraill ac i gyfaddawdu. Dônt i ddatblygu hunan-hyder, sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad cyfrifol, moesol tuag at ei gilydd a thuag at gyfoedion ac oedolion.

**Adolygir: Chwefror 2017**

Arwyddwyd: \_\_\_\_\_, Cadeirydd y  
Llywodraethwyr

Dyddiad: \_\_\_\_\_